# GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (LLANFAIR CAEREINION, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER O 30 MYA A THERFYN CYFLYMDER RHAN-AMSER O 20 MYA) 2017

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 24 Mawrth 2017.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya ar y darn o gefnffordd yr A458 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn er mwyn gostwng cyflymder traffig sy'n gyfagos i Ysgol Gynradd Llanfair Caereinion ac Ysgol Uwchradd Caereinion yn Llanfair Caereinion, Powys a hybu diogelwch cerddwyr. Bydd hyd a lled y terfyn cyflymder presennol o 30 mya ar gefnffordd yr A458 hefyd yn cael ei estyn fel y'i disgrifir yn Atodlen 2. Dim ond yn ystod cyfnodau cyfyngedig o'r dydd yn y tymor ysgol y disgwylir y bydd y terfyn cyflymder rhan-amser o 20 mya yn gymwys: bydd y terfyn cyflymder presennol o 30 mya mewn grym ar yr holl adegau eraill.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 17 Mawrth 2017 gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol, yn Swyddfa Bost Llanfair Caereinion, Market Square, Llanfair Caereinion, Powys SY21 0RJ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1261297/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2017).

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI
## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder Rhan-amser o 20 mya

Y darn o'r gefnffordd o'r enw New Road a Pool Road, Llanfair Caereinion sy'n ymestyn o bwynt 135 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Bridge Street y B4389 hyd at bwynt 278 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt y gyffordd honno.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder o 30 mya

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Pool Road, Llanfair Caereinion sy'n ymestyn o bwynt 337 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Bridge Street y B4389 hyd at bwynt 395 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

# THE A458 TRUNK ROAD (LLANFAIR CAEREINION, POWYS) (30 MPH & PART-TIME 20 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2017

THE WELSH MINISTERS have made an Order in exercise of their powers under section 84(1), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 24 March 2017.

The effect of the Order is to introduce a part-time 20 mph speed limit on the length of the A458 trunk road described in Schedule 1 to this Notice in order to reduce the speed of traffic and promote pedestrian safety adjacent to Llanfair Caereinion County Primary School and Caereinion High School at Llanfair Caereinion, Powys. The extent of the existing 30 mph speed limit on the A458 trunk road will also be extended as described in Schedule 2. The part-time 20 mph speed limit is only expected to apply for limited periods of the day during school term time: at all other times the existing 30 mph speed limit will be in force.

During a period of 6 weeks from 17 March 2017 a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Llanfair Caereinion Post Office, Market Square, Llanfair Caereinion, Powys SY21 0RJ or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1261297/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

**M D BURNELL**
Transport, Welsh Government

## SCHEDULES
## SCHEDULE 1
## Part-time 20 mph Speed Limit

The length of the trunk road known as New Road and Pool Road, Llanfair Caereinion that extends from a point 135 metres south-west of the centre-point of its junction with the B4389 Bridge Street to a point 278 metres north-east of the centre-point of that junction.

## SCHEDULE 2
## 30 mph Speed Limit

The length of the trunk road known as Pool Road, Llanfair Caereinion that extends from a point 337 metres north-east of the centre-point of its junction with the B4389 Bridge Street to a point 395 metres north-east of that junction.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

**Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print brasach gan Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**
**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**